# Sgiliau Hanfodol Cymru

## Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhif (EAoNS)

### Lefel 1 - Tasg dan Reolaeth

### Pecyn i Ymgeiswyr

| **Gwyliau Gartref** |
|---|

Fersiwn **2.3**
**Sampl (Set A)**

**Cyfarwyddiadau**

- Cwblhewch y blychau gwybodaeth ymgeiswyr isod.
- Cwblhewch **bob** rhan o'r dasg
- Llofnodwch a dyddio'r datganiad ar y dudalen nesaf pan fyddwch wedi cwblhau'r dasg.

| |
|---|
| Enw'r ymgeisydd: |
| Rhif yr ymgeisydd: |
| Dyddiad cofrestru ar gyfer EAoNS: |
| Rhif Unigryw'r Dysgwr (ULN) *(os yn berthnasol)*: |
| Enw *neu* rif y Ganolfan: |

Mae gennych chi **4 awr** i gwblhau'r dasg, ond mae'n bosib rhannu'r amser hwnnw dros nifer o sesiynau.
Mae'n **rhaid** i chi nodi isod pa bryd roedd bob sesiwn wedi dechrau a pha bryd roedd bob sesiwn wedi gorffen:

| Dyddiad **dechrau**'r dasg dan reolaeth: | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyddiad **gorffen** y dasg dan reolaeth (*dim mwy nag wyth wythnos yn ddiweddarach):* | | | | | | | |
| Sesiwn 1 | Sesiwn 2 | Sesiwn 3 | Sesiwn 4 | Sesiwn 5 | Sesiwn 6 | Sesiwn 7 | Sesiwn 8 |
| | *Dyddiad* | *Dyddiad* | *Dyddiad* | *Dyddiad* | *Dyddiad* | *Dyddiad* | *Dyddiad* |
| *Hyd* | *Hyd* | *Hyd* | *Hyd* | *Hyd* | *Hyd* | *Hyd* | *Hyd* |
| **Cyfanswm** yr amser a dreuliwyd: | | | | Llofnod y Goruchwyliwr: | | | |

Os oes angen mwy nag wyth sesiwn arnoch chi, rhowch ddyddiad/hyd bob sesiwn arall ar dudalen ar wahân.

Cyhoeddwyd ar y cyd gan y pedwar corff dyfarnu Sgiliau Hanfodol:
Agored Cymru
City & Guilds
Pearson
CBAC

**Mae'r pecyn hwn yn cynnwys senario, cyfarwyddiadau a deunyddiau ffynhonnell.**

- Darllenwch y senario, y cyfarwyddiadau a'r deunyddiau ffynhonnell yn ofalus cyn dechrau.
- Byddwch yn cael eich goruchwylio gydol yr amser rydych chi'n gweithio ar y dasg hon.
- Gallwch ddefnyddio'r rhan fwyaf o'r offer sydd ar gael i chi fel arfer mewn sefyllfa go iawn, gan gynnwys defnyddio'r rhyngrwyd.
- Mae'n rhaid i bob darn o waith rydych chi'n ei roi i mewn, fod yn waith rydych **chi eich hun a neb arall** wedi'i wneud. Does neb yn cael eich helpu gyda'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy'r dasg dan reolaeth hon.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi eich gwaith i gyd i mewn ar ddiwedd **pob** sesiwn. Chewch chi ddim mynd ag unrhyw rai o ddeunyddiau'r dasg i ffwrdd gyda chi, a chewch chi ddim gweld y deunyddiau rhwng sesiynau.
- Llofnodwch a dyddio'r datganiad isod pan fyddwch wedi cwblhau'r dasg.

**Datganiad yr ymgeisydd**

Rwyf yn cadarnhau mai fy ngwaith i yn gyfan gwbl yw'r dasg dan reolaeth hon a fy mod wedi'i wneud yn ystod y sesiynau dan oruchwyliaeth sydd wedi'u nodi ar y dudalen flaen.

Llofnod yr ymgeisydd: ______________________________ Dyddiad: ________

## Cyfarwyddiadau'r Dasg: Gwyliau Gartref

## Beth mae angen i chi ddod o hyd iddo

**Senario**
Rydych chi'n gweithio i gwmni sy'n hysbysebu bythynnod gwyliau i'w rhentu.
Mae perchennog bwthyn un ystafell wely newydd ym Mannau Brycheiniog eisiau ei rentu dros yr haf.

Nodau'r dasg hon yw:

- argymell rhent wythnosol addas ar gyfer y bwthyn newydd
- cyfrifo cyfanswm yr incwm o rent o fis Mai i fis Medi
- argymell ble y dylid gosod ramp mynediad ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

Defnyddiwch y ffynonellau a ddarparwyd.

## Beth mae angen i chi ei wneud

**Rhan 1**
Darllenwch drwy'r dasg a'r deunyddiau ffynhonnell.
Gwnewch gynllun i ddangos sut y byddwch yn cwblhau'r dasg hon.
Dangoswch eich cynllun fel rhestr, tabl, diagram pry cop neu siart llif.

Rhaid i chi gynnwys:

- y wybodaeth y mae angen i chi ddod o hyd iddi yn y deunyddiau ffynhonnell
- pa gyfrifiadau y byddwch yn eu gwneud
- sut y byddwch yn cyflwyno eich canfyddiadau ar gyfer Rhan 2 a Rhan 3.

(Cyfanswm ar gyfer Rhan 1: 2 farc)

Yn **Rhan 2 a Rhan 3,** rhaid i chi:

- dangos yr holl gyfrifiadau rydych chi'n eu gwneud. Os ydych chi'n defnyddio cyfrifiannell, gwnewch nodyn o'r hyn rydych chi'n ei roi yn y cyfrifiannell. Os ydych chi'n defnyddio taenlen, gwnewch nodyn o'r rhifau a'r fformwlâu rydych chi'n eu defnyddio.

Cofiwch wirio eich cyfrifiadau.

**Rhan 2**
Mae angen i chi argymell rhent wythnosol addas ar gyfer y bwthyn newydd yn y tymor prysur a'r tymor tawel.

Rhaid i chi ddefnyddio Ffynhonnell 1 i:
- cyfrifo'r rhent wythnosol cyfartalog (cymedr) ar gyfer bythynnod un ystafell wely eraill yn y tymor prysur (Gorffennaf ac Awst)
- talgrynnu eich ateb i'r £10 agosaf
- argymell rhent wythnosol ar gyfer y bwthyn newydd yn y tymor prysur a rhoi rheswm.

Bydd y rhent wythnosol ar gyfer y tymor tawel (Mai, Mehefin a Medi) 15% yn llai na rhent y tymor prysur.

Rhaid i chi:
- cyfrifo 15% o'r rhent wythnosol yn y tymor prysur
- tynnu'r 15% i gyfrifo'r rhent wythnosol yn y tymor tawel
- cyfrifo cyfanswm yr incwm os yw'r bwthyn newydd yn cael ei rentu bob wythnos rhwng mis Mai a mis Medi (Ffynhonnell 2)
- cyflwyno'ch canfyddiadau mewn ffordd addas (tabl, siart, diagram neu graff).

Cofiwch wirio eich cyfrifiadau.

(Cyfanswm ar gyfer Rhan 2: 14 marc)

**Rhan 3**
Mae angen ramp mynediad at ddrws ffrynt y bwthyn newydd ar ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.
Mae angen i chi argymell ble y dylid gosod y ramp.

Rhaid i chi ddefnyddio Ffynhonnell 3 a Ffynhonnell 4 i:
- cyfrifo beth ydi hyd y ramp
- argymell ble y dylid gosod y ramp a rhoi rheswm
- cyflwyno eich canfyddiadau. Defnyddiwch ddull gwahanol i'r un yr ydych wedi'i ddefnyddio yn Rhan 2 (tabl, siart, diagram neu graff).

Cofiwch wirio eich cyfrifiadau.

(Cyfanswm ar gyfer Rhan 3: 7 marc)

## Ffynonellau y dylech chi eu defnyddio:

**Ffynhonnell 1**
- Tabl - bythynnod gwyliau sydd ar gael i'w rhentu ym Mannau Brycheiniog

**Ffynhonnell 2**
- Tabl - wythnosau ar gael ar gyfer rhentu'r bwthyn newydd

**Ffynhonnell 3**

- Diagram – golwg ochr o ramp mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn

**Ffynhonnell 4**

- Diagram – cynllun llawr ar gyfer y bwthyn newydd

## Ffynhonnell 1 Tabl - bythynnod gwyliau sydd ar gael i'w rhentu ym Mannau Brycheiniog


| Bythynnod gydag un ystafell wely sydd ar gael i'w rhentu ym Mannau Brycheiniog yn y tymor prysur (Gorffennaf ac Awst) | | |
|---|---|---|
| **Bwthyn** | **Mynediad i gadeiriau olwyn** | **Rhent am bob wythnos** |
| 'Ann's Cottage'<br>Y Fenni | Na | £350 |
| 'April Cottage'<br>Llanwrtyd | Na | £450 |
| 'Barn Hill Cottage'<br>Llanymddyfri | Na | £390 |
| 'Cliff Top Cottage'<br>Llanymddyfri | Na | £640 |
| 'High Cottage'<br>Y Mynydd Du | Na | £505 |
| 'Lower Cottage'<br>Y Gelli Gandryll | Oes | £759 |
| 'St David's Cottage'<br>Llanymddyfri | Na | £349 |
| 'Strawberry Wood Cottage'<br>Y Fenni | Na | £349 |
| 'The Coach Cottage'<br>Y Fenni | Na | £655 |
| 'The Oakleaf'<br>Y Fenni | Oes | £840 |

## Ffynhonnell 2 Tabl - wythnosau ar gael ar gyfer rhentu'r bwthyn newydd

| Wythnosau ar gael ar gyfer rhentu'r bwthyn newydd | |
|---|---|
| **Tymor** | **Wythnos yn cychwyn** |
| Tymor tawel | 7 Mai |
| | 14 Mai |
| | 21 Mai |
| | 28 Mai |
| | 4 Mehefin |
| | 11 Mehefin |
| | 18 Mehefin |
| | 25 Mehefin |
| Tymor prysur | 2 Gorffennaf |
| | 9 Gorffennaf |
| | 16 Gorffennaf |
| | 23 Gorffennaf |
| | 30 Gorffennaf |
| | 6 Awst |
| | 13 Awst |
| | 20 Awst |
| | 27 Awst |
| Tymor tawel | 3 Medi |
| | 10 Medi |
| | 17 Medi |
| | 24 Medi |
| Mae pob archeb am le yn rhedeg o ddydd Sadwrn i ddydd Sadwrn<br>Cyrraedd am 3pm, Gadael am 10am | |

**Ffynhonnell 3 Diagram – golwg ochr o ramp mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn**

**NID** yw'r diagram wedi'i luniadu'n fanwl gywir




Noder: Cymhareb uchder y ramp i'r hyd yw 1:15

**Ffynhonnell 4 Diagram – cynllun llawr ar gyfer y bwthyn newydd**

**NID** yw'r diagram wedi'i luniadu'n fanwl gywir

